Canllawiau atodol ar gyfer arolygu dwyieithrwydd mewn ysgolion cynradd a meithrin

Beth yw'r diben?

Darparu arweiniad pellach i arolygwyr ar sut i arolygu dwyieithrwydd mewn ysgolion cynradd a meithrin. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn law yn llaw â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Cynradd a Meithrin wrth arolygu pob ysgol gynradd a meithrin, beth bynnag yw ei natur ieithyddol.

Ar gyfer pwy?

Pob aelod o dimau arolygu ysgolion cynradd a meithrin.

O bryd y dylid defnyddio'r canllawiau?

Medi 2004.

Dyddiad cyhoeddi: Haf 2004

1. Cyflwyniad

O fis Medi 2004, y Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru fydd sail yr holl arolygiadau y mae Estyn yn gyfrifol amdanynt.

Dylid defnyddio'r canllawiau hyn gyda'r llawlyfr sector 'Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Cynradd a Meithrin'. Maent yn nodi meini prawf a'r hyn y dylai arolygwyr ei ystyried wrth gymhwyso'r llawlyfr i arolygu dwyieithrwydd ymhob ysgol feithrin a chynradd, p'un a ydynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.

2. Cefndir

2.1 Nodau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â dwyieithrwydd

Y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi datgan ei ymrwymiad i'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn ei gynllun strategaethol cyntaf yn y flwyddyn 2000. Mae'r ddogfen hon yn datgan, erbyn 2010, y:

> 'Dylai cyfran y boblogaeth gyfan a all siarad Cymraeg fod wedi tyfu, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith pobl ifanc.'

Yn ei adolygiad polisi o'r Gymraeg 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' ategir yr ymrwymiad hwn â'r gosodiadau canlynol, sy'n datgan bod y Cynulliad:

> ‘ yn nodi’r ymrwymiad yn nogfen ‘Gwell Cymru’ i feithrin manteision dwyieithrwydd’; ac
>
> ‘ yn cadarnhau ei gred bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, boed siaradwyr Cymraeg neu ddi-Gymraeg, ac yn ymrwymo i gydweithredu â chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cymaint â phosib o gyfleoedd i bobl ymhob rhan o Gymru gymryd rhan yn niwylliant a bywyd cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru.’

Mae ‘Ein Hiaith ei dyfodol’ hefyd yn nodi’r hyn y mae angen i ysgolion ei wneud i godi safonau dwyieithrwydd:

> ‘dylai ysgolion ystyried ffyrdd o wella safonau mewn Cymraeg ail iaith’ ac
>
> ‘dylai ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg ddatblygu polisïau ar gyfer gwneud mwy o ddefnydd o’r Gymraeg fel cyfrwng dysgu mewn pynciau priodol’

Mae ‘Iaith Pawb’ (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gyfer Cymru Ddwyieithog) yn nodi’r canlynol fel targed allweddol :

> ‘Erbyn 2011, bod y ganran o bobl Cymru sy’n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o’r ffigwr a ddaw i’r amlwg o gyfrifiad *2001.’*

Mae ‘Iaith Pawb’ hefyd yn nodi bod swyddogaeth hollbwysig gan addysg a hyfforddiant mewn gwireddu dyheadau’r Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog.

> ‘Y nod tymor hir ar gyfer ein darpariaeth blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa ble mae llawer iawn yn fwy o blant dan 5 oed wedi cael digon o gyswllt â’r Gymraeg a’r Saesneg i allu symud naill ai i ysgolion Cymraeg neu ysgolion sy’n gweithredu’n ddwyieithog. Yn ogystal cydnebyddir yr angen i wneud mwy i godi safonau ym mhrofiad disgyblion o Gymraeg fel ail iaith. Mae addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ehangu’n gyson mewn blynyddoedd diweddar ac mae Iaith Pawb yn nodi dymuniad Llywodraeth y Cynulliad i annog cynnydd pellach.’

Mae gan arolygwyr ran allweddol i’w chwarae drwy arfarnu ac adrodd ar y cynnydd a wna darparwyr addysg wrth iddynt fynd ati i wella safonau dwyieithrwydd.

2.2 Ffurf a chynnwys y canllawiau

Y mae’r canllawiau wedi eu seilio ar y saith cwestiwn allweddol yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, sef:

1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

3. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r cymorth i ddysgwyr?

5. Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

7. Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Mae'r canllawiau'n yn ymdrin â phob un o'r saith cwestiwn allweddol yn ei dro. Gellir categoreiddio ysgolion meithrin a chynradd, yn fras, yn ysgolion:

- sydd yn addysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg;
- ysgolion cyfrwng Saesneg; ac
- ysgolion 'dwy ffrwd' sydd yn cynnig darpariaeth gyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ochr yn ochr.

Lle mae hynny'n anghenrheidiol , mae'r canllawiau yn gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n rhesymol ei ddisgwyl mewn perthynas â dwyieithrwydd mewn categorïau gwahanol, gan ystyried natur ieithyddol yr ysgol yr ydych yn ei harolygu a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu.

Mae Atodiad 1 yn rhan olaf y ddogfen hon yn cynnwys canllawiau cryno ar gyfer arolygu dwyieithrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys crynodeb o'r prif destun ac yn rhestru nodweddion cyffredin mewn perthynas â phob cwestiwn allweddol lle bernir bod safonau a darpariaeth yn dda. Maent yn darparu rhestr wirio gyfleus i arolygwyr i'w cynorthwyo i lunio barnau wrth arolygu allan yn y maes. Yn Atodiad 2, cynhwysir canllawiau pellach ar raddio safonau dwyieithrwydd mewn sefyllfaeodd enghreifftiol.

2.3 Cyfrifoldebau arolygu

Mae'n hanfodol bod pob aelod o'r tîm arolygu yn defnyddio'r canllawiau hyn ac yn cyfrannu tystiolaeth a barn am ddwyieithrwydd, nid yn unig yr arolygwyr pwnc Cymraeg/Cymraeg ail iaith a Saesneg. Bydd cyfarfodydd y tîm arolygu yn chwarae rhan allweddol o ran llunio barnau cyfansawdd a chytûn.

Dylid pennu aelod o'r tîm arolygu i fod yn gyfrifol am arwain a chydlynu gwaith y tîm mewn perthynas â dwyieithrwydd.

2.4 Dyfarnu graddau ac adrodd

2.4.1 Proffil ysgol

Yn y proffil ysgol meithrin a chynradd, mae gofyn i chi ddyfarnu gradd ar gyfer y datganiadau canlynol yn ymwneud â dwyieithrwydd mewn perthynas â Chwestiynau Allweddol 1, 2 a 3, ynghyd â 'graddau eraill':

Cwestiynau Allweddol 1 i 3

Y graddau y mae:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	**CA2**	**Ysgol gyfan**
Disgyblion yn cyflawni ar lefelau priodol yn y medrau allweddol, yn cynnwys cymhwysedd dwyieithrwydd (Cwestiwn Allweddol 1)					
Yr addysgu yn diwallu anghenion ieithyddol dysgwyr, yn cynnwys cyfleoedd i dderbyn addysgu a hyfforddi dwyieithog (Cwestiwn Allweddol 2)					
Darpariaeth yn hyrwyddo medrau dwyieithog dysgwyr ac yn adlewyrchu ieithoedd a diwylliant Cymru (Cwestiwn Allweddol 3)					

Graddau eraill:

Safonau cyflawniad:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	**CA2**	**Ysgol gyfan**
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Cymraeg					
Siarad a gwrando: Cymraeg					
Darllen: Cymraeg					
Ysgrifennu: Cymraeg					
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Saesneg					
Siarad a gwrando: Saesneg					
Darllen: Saesneg					
Ysgrifennu: Saesneg					
Cymhwysedd mewn Cymraeg a Saesneg (dwyeithrwydd)					

2.4.2 Yr adroddiad ysgrifenedig

Mae'r gofynion adrodd a gynhwysir yn yr Arweiniad yn cynnwys y canlynol:

Cwestiwn Allweddol 1

- Medrau allweddol y disgyblion, gan gynnwys eu cymhwysedd dwyieithog .

Dylai adran yma'r adroddiad hefyd gynnwys datganiad clir ar safonau dwyieithrwydd, a hynny ar gyfer darpariaeth feithrin (lle bo'n berthnasol), derbyn, CA1 a CA2, ac ysgol gyfan .

Cwestiwn Allweddol 3

- Y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dwyieithog y disgyblion yn Gymraeg a Saesneg. .

- Mewn perthynas â **Chwestiynau Allweddol 2, 4, 5, 6 a 7**, bydd eich arfarniadau ar ddwyieithrwydd yn cyfrannau at y radd gyffredinol ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol hyn. Fodd bynnag, dylai'r adrannau hyn gyfeirio at unrhyw nodweddion da neu ddiffygion sy'n arwyddocaol.

Dylai'r adroddiad ysgrifenedig fod yn adlewyrchu'n gywir y graddau y byddwch wedi eu cofnodi yn y proffil ysgol.

YSGOLION CYNRADD A MEITHRIN : AROLYGU DWYIEITHRWYDD

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Mae arfarnu safonau dwyieithrwydd yn fater cymhleth. Yn achos Cymraeg, Cymraeg ail iaith a Saesneg, mae gennym ni orchmynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n disgrifio safonau. Nid oes safonau cenedlaethol mewn perthynas â dwyieithrwydd.

Mae llawer o faterion i'w hystyried wrth lunio barnau am safonau dwyieithrwydd mewn ysgolion. Un o egwyddorion pwysicaf arolygu yw mai barnu 'cyflawniad' yr ydym ni, ac nid 'cyrhaeddiad'. Rhaid cadw hyn mewn cof wrth arfarnu safonau dwyieithrwydd.

Gyda hynny mewn golwg, dylech roi ystyriaeth fanwl i ffactorau megis y canlynol:

- man cychwyn y dysgwyr;
- nodau a pholisi'r sefydliad, a lle bo'n berthnasol, rai'r AALl;
- cyd-destun a chefndir ieithyddol y sefydliad; a'r
- cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud yn ystod y cyfnod allweddol ar sail eu man cychwyn ar ddechrau'r cyfnod allweddol.

Mae'n hanfodol eich bod chi bob amser yn ystyried yr hyn sy'n rhesymol o ystyried cefndir a chyd-destun ieithyddol yr ysgol yr ydych yn ei harolygu, ynghyd â'r ardal y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.

❑ Eu llwyddiant yn cyflawni nodau dysgu cytunedig

⇒ **A yw dysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u medrau dwyieithog?**

Mae'n rhesymol disgwyl bod pob ysgol yn ymwybodol o'i rhan yn datblygu dwyieithrwydd disgyblion. Dylai polisi iaith yr AALl hefyd amlinellu yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion o gategorïau gwahanol. Fodd bynnag, nid yw'n briodol i ni arfarnu polisi'r AALl wrth arolygu ysgolion na chynnwys cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad.

Mae rhai disgyblion yn ymuno â'r sector addysg Gymraeg neu ddwyieithog yn hwyrach na'r man cychwyn arferol, sef pan ydynt yn dair neu bedair oed. Yn achos y disgyblion hyn, yn enwedig pan ddônt yn ystod cyfnod allweddol 2, efallai fod yr ysgol yn trefnu darpariaeth ychwanegol ar eu cyfer, sy'n eu galluogi i gyfranogi'n llawn yn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Gall hynny fod drwy wersi ychwanegol yn yr ysgol neu fynychu canolfan iaith. Lle bo hynny'n bosib, dylech drefnu i ymweld â'r ddarpariaeth

hon yn ystod yr arolygiad, er mwyn arfarnu cynnydd disgyblion yr ysgol yr ydych yn ei harolygu.[1] Fel arall, dylech fesur cynnydd y disgyblion drwy siarad â hwy, neu ddisgyblion sydd wedi derbyn y ddarpariaeth hon o'r blaen, ac archwilio samplau gwaith.

Yn rhai o ysgolion yr ardaloedd trefol lle'r addysgir y Gymraeg fel ail iaith, yn enwedig yn y de-ddwyrain, mae llawer o'r disgyblion yn perthyn i leiafrifoedd ethnig. Efallai fod y disgyblion hynny'n medru ieithoedd ar wahân i'r Saesneg. Mae'n bwysig eich bod yn edrych yn ofalus ar gyflawniad a chynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion fel y rhain wrth ddod i farn am safonau dwyieithrwydd o ran y Gymraeg a'r Saesneg. Dylech ystyried yr adwerth y mae'r ysgol yn ei roi ar sail man cychwyn y disgyblion.

Fel rhan o'r broses o lunio barn am safonau, bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- safonau yn y Gymraeg/Cymraeg ail iaith fel pwnc;
- safonau yn y Saesneg fel pwnc;
- medrau'r disgyblion yn y ddwy iaith mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, yn cynnwys medrau llythrennedd deuol;
- defnydd y disgyblion o'r ddwy iaith y tu hwnt i'w gwersi.

Bydd y rhain oll yn cyfrannu at eich arfarniad crynodol ar safonau dwyieithrwydd. Bydd y graddau y byddwch yn eu dyfarnu yn seiliedig ar safonau ym mhob un o'r dosbarthiadau. Er hynny, dylech dalu sylw arbennig i gyflawniadau disgyblion mewn perthynas â dwyieithrwydd erbyn diwedd y cyfnodau allweddol.

Pwysig: Dan y drefn newydd a fydd yn weithredol o fis Medi 2004, bydd ysgolion yn cael un o dri math o arolygiad – naill ai arolygiad byr, neu arolygiad cyffredin, neu arolygiad llawn. Mewn arolygiadau byr, ni fydd arolygwyr yn rhoi gradd grynodol i unrhyw bwnc. Ymhellach, mewn arolygiadau safonol, mae'n bosib na fydd Y Gymraeg/Cymraeg ail iaith na'r Saesneg ymhlith y chwe phwnc a fydd yn cael eu harolygu yn y modd arferol. Fodd bynnag, bydd disgwyl i chi raddio safonau dwyieithrwydd ar **bob** arolygiad, pa un a yw'n arolygiad byr, safonol neu lawn. Dylech seilio'ch barn ar safonau dwyieithrwydd ar y dystiolaeth a fydd ar gael. Bydd hynny'n cynnwys ymweliadau â gwersi, siarad â disgyblion ac arsylwi disgyblion o gwmpas yr ysgol. Mewn perthynas â dosbarthiadau meithrin, derbyn a chyfnod allweddol1 yn y sector cyfrwng Cymraeg, nid yw'r Saesneg, fel arfer, yn cael ei haddysgu'n ffurfiol. Yn yr achosion hyn, ni ddylech ddyfarnu gradd i ddwyieithrwydd, dim ond ar gyfer y Gymraeg fel pwnc.

[1] O dan baragraff 12(2) Atodlen 6 Deddf Addysg 1997, mae gan arolygwyr hawl mynediad i ysgolion eraill nad ydynt yn rhan o'r arolygiad lle:

- mae'r ysgol (-ion) arall yn darparu rhan o addysg disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol sydd yn cael ei harolygu; a
- lle y barnant nad oes modd iddynt gyflawni eu dyletswyddau dan Adran 10(5) Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 mewn perthynas â'r ysgol sydd yn cael ei harolygu heb arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny yn yr ysgol arall.

A yw'r disgyblion yn meddu ar fedrau llythrennedd deuol da?

Mae'n bwysig cofio mai mesur safonau dwyieithrwydd yr ydych, nid dim ond safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân. Yng nghyfnod allweddol 2 yn y sector addysg Gymraeg, mae angen i arolygwyr ystyried nid yn unig allu disgyblion i siarad, darllen ac ysgrifennu'n fedrus yn y ddwy iaith ond hefyd eu gallu i symud yn rhwydd rhyngddynt. Gelwir gallu disgyblion i ddefnyddio'r ddwy iaith yn y modd hwn yn 'llythrennedd deuol'[2]. Mae rhai o'r medrau sydd ynghlwm wrth lythrennedd deuol weithiau'n cael eu galw'n fedrau 'trawsieithu' neu 'drawslythrennu'.

Mae disgyblion â medrau llythrennedd deuol da yn dangos gallu cynyddol i:

- dynnu ar eu hadnoddau ieithyddol yn Gymraeg a Saesneg i atgyfnerthu eu sgiliau yn y ddwy iaith;
- gwella ac ehangu eu dealltwriaeth a'u gafael ar bynciau neu destunau gwahanol mewn dwy iaith;
- tynnu ar ddiwylliannau'r ddwy iaith er mwyn deall bywyd a safbwyntiau pobl amrywiol o gefndiroedd ieithyddol gwahanol;
- cyfathrebu â phobl o gefndiroedd ieithyddol gwahanol a darllen eu llenyddiaeth yn ddeallus; a
- manteisio'n llawn ar y gallu i gyfathrebu yn y ddwy iaith i drosglwyddo o un iaith i'r llall er mwyn cyflawni tasgau penodol sy'n gofyn am ddealltwriaeth o'r ddwy iaith.

Mae safonau dwyieithrwydd disgyblion yn uwch pan fo disgyblion yn medru defnyddio'r ddwy iaith yn gymwys mewn ystod cynyddol o gyd-destunau. Mae hyn, fel arfer, yn golygu medru defnyddio'r ddwy iaith mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'w gwersi Cymraeg a Saesneg.

Yn yr adroddiad 'Ennill Iaith'[3] nodir yr egwyddor ganlynol:

> ' Iaith cyfathrebu o ddydd i ddydd a ddatblygir yn y gwersi iaith fel rheol. Ond i gael meistrolaeth lwyr ar unrhyw iaith, rhaid datblygu'r iaith wyddonol/academaidd, hynny yw trin a thrafod syniadau a chysyniadau mewn amrywiol feysydd. Trwy ei defnyddio'n gyfrwng naturiol o fewn pynciau eraill yn yr ysgol y gellir sicrhau hyfedredd llawn a meistrolaeth arni.'

Lle mae safonau dwyieithrwydd yn dda, yn aml, mae disgyblion CA2 yn gwneud defnydd cynyddol ac effeithiol o'r ddwy iaith yn eu gwaith ym mhynciau eraill y cwricwlwm. Dylai sylwadau arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae disgyblion yn datblygu eu medrau dwyieithog ar draws pynciau'r cwricwlwm. Dylai arolygwyr nodi ym mha bynciau y mae nodweddion da neu ddiffygion arwyddocaol mewn perthynas â dwyieithrwydd disgyblion.

[2] Datblygu llythrennedd deuol: Papur trafod Estyn (Estyn 2002)
[3] 'Ennill Iaith, Astudiaeth o sefyllfa drochi yn 11-16 oed' Cen Williams, Ysgol Addysg Prifysgol Cymru Bangor 2002.

Mewn ysgolion Cymraeg, ni ddylech ddisgwyl o anghenraid bod disgyblion, er enghraifft, yn gwneud hanner eu gwaith yn y Gymraeg a hanner yn y Saesneg. Dylid ystyried nifer o ffactorau yma, yn enwedig:

- cefndir ieithyddol y disgyblion a'u teuluoedd
- cyd-destun ieithyddol y gymuned a wasanaethir gan yr ysgol; a
- dylanwad y cyfryngau torfol.

Yn y sector addysg Gymraeg neu ddwyieithog, mae'n angenrheidiol sicrhau gogwydd pendant at y Gymraeg er mwyn ymgyrraedd at y nod o ddwyieithrwydd.

⇒ **A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn ystod o gyd-destunau a sefyllfaoedd y tu allan i fframwaith cyfarwydd a'r tu hwnt i'r ystafell ddosbarth?**

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn gallu cael dylanwad arwyddocaol ar lefelau cyflawniad disgyblion a'u datblygiad ieithyddol. Yn sgil y cyfleoedd hyn, daw disgyblion i fedru defnyddio'r ieithoedd mewn cyd-destunau newydd a sefyllfaoedd llai cyfarwydd. Mae hyn yn ffactor allweddol o ran datblygu dwyieithrwydd, ac yn berthnasol i ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd. Mae'n arbennig o wir yn achos y Gymraeg mewn ysgolion lle mae cynifer o'r disgyblion yn dod o gefndir di-Gymraeg. Mae rhai ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg fel iaith achlysurol wrth siarad â'r disgyblion neu wneud defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau ysgol. Y mae hyn yn cael dylanwad arwyddocaol ar lefelau dwyieithrwydd y disgyblion. Lle bo modd, dylech fynychu rhai o'r gweithgareddau hyn yn ystod yr arolygiad. Y maent yn cynnig tystiolaeth bwysig o allu'r disgyblion i gymhwyso'r iaith y maent wedi ei dysgu yn eu gwersi.

Lle bo tystiolaeth ar gael, dylech ystyried pa gyfran o'r disgyblion sy'n mynychu gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn rheolaidd.

❑ Eu cynnydd wrth ddysgu

⇒ **A yw disgyblion yn gwneud cynnydd clir ar sail eu cyflawniadau blaenorol drwy ddilyn rhaglenni astudio priodol?**

Pa gyfran o'r disgyblion sy'n parhau i ddilyn y trac mamiaith wedi trosglwyddo o'r blynyddoedd cynnar, a rhwng cyfnodau allweddol 1 a 2?
Os oes niferoedd arwyddocaol (mwy nag 1 o bob 10) yn newid o Gymraeg iaith gyntaf i ddilyn y rhaglen ail iaith, dylai'r adroddiad nodi bod y disgyblion hyn yn tangyflawni o ran eu gallu yn y Gymraeg a datblygiad eu dwyieithrwydd.

❑ Datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a'u medrau dysgu

Ydy'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at y ddwy iaith?

Ydyn nhw'n dangos parodrwydd i ddefnyddio'u medrau dwyieithog ac yn ymroddedig i'w gwella?

Noder: mae Atodiad 2 yn cynnwys astudiaethau achos i'ch helpu i ddyfarnu'r radd briodol i safonau dwyieithrwydd.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

❑ pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion y dysgwyr a'r gofynion cwricwlwm neu gwrs

⇒ **A yw'r dulliau addysgu yn effeithiol?**

Bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- A yw'r gwaith yn ddigon heriol o ystyried gallu ieithyddol y disgyblion a'u cyflawniadau blaenorol?
- A oes tystiolaeth o wneud defnydd effeithiol o amrediad o dechnegau addysgu a dulliau o drefnu dosbarth?
- A yw disgyblion yn deall yn glir yr hyn a ddisgwylir ganddynt, er enghraifft pa iaith y dylent eu defnyddio wrth ryngweithio mewn grwpiau bach?
- A yw staff arall, yn cynnwys cymorthyddion dysgu, athrawon cynnal ac arbenigol a gweinyddesau meithrin, yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol i sicrhau datblygiad ieithyddol disgyblion yn llawn.
- A yw'r athrawon yn defnyddio model iaith o ansawdd da, drwy siarad yn glir ac yn gywir yn y cywair priodol a defnyddio terminoleg briodol?

Nid yw siarad â'r disgyblion mewn un iaith ac ailadrodd popeth yn yr iaith arall yn ffordd effeithiol o ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion.

⇒ **A oes dilyniant cydlynus yn yr addysgu o ran gweithgareddau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn y naill iaith a'r llall?**

Yn y blynyddoedd cynnar a CA1 mae'r pwyslais yn bennaf ar weithgareddau siarad a gwrando. Pan fyddant yn barod, bydd y disgyblion yn cael eu cyflwyno i sgiliau cyn-ddarllen ac ysgrifennu ac yna i waith annibynnol.

Lle mae arfer dda, mae athrawon yn sicrhau bod dilyniant o brofiadau dysgu cydlynus yn y tri modd iaith. Er enghraifft, mae ansawdd gwaith cofnodi neu ysgrifennu disgyblion yn aml yn elwa os yw, fel arfer, yn yr un iaith ag y buwyd yn trafod yn y wers berthnasol pan yw'n dilyn gweithgaredd llafar cysylltiedig yn yr un iaith. Mewn Cymraeg ail iaith yn enwedig, dylai hyn gynnwys adolygu iaith a gyflwynwyd mewn gwersi blaenorol, cyflwyno eitemau iaith newydd ac atgyfnerthu gafael disgyblion arnynt drwy ymarfer dwys. Yn yr arfer orau, mae cyfnodau yn cael eu neilltuo yn rheolaidd i adolygu gwaith blaenorol ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd llai strwythuredig a go iawn.

A yw athrawon yn rhoi digon o sylw i wella ansawdd mynegiant llafar disgyblion, gan gynnwys geirfa, patrymau brawddegol a gramadeg?

A oes cyfleoedd digonol ar gyfer atgyfnerthu gafael disgyblion arnynt?

⇒ **A yw'r ysgol yn datblygu medrau deuol y disgyblion mewn modd effeithiol?**

Mae'r papur trafod 'Datblygu llythrennedd deuol' (Estyn 2002) yn dangos sut y gall athrawon roi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu llythrennedd deuol. Yn yr arfer orau, y mae athrawon yn rhoi canllawiau i'r disgyblion ar sut i gyflawni'r tasgau yn effeithiol, fel defnyddio ffynonellau mewn un iaith ar gyfer cyflwyno gwybodaeth yn yr iaith arall, neu newid yn rhwydd o un iaith i'r llall. Mae dwyieithrwydd disgyblion yn elwa lle mae athrawon yn esbonio'r tebygrwydd neu'r berthynas rhwng terminoleg a gramadeg yn y ddwy iaith.

Mae'r tabl sy'n dilyn yn crynhoi rhai o nodweddion mwyaf cyffredin medrau llythrennedd deuol*:*

Ceisio gwybodaeth a gyflwynir mewn un iaith er mwyn ei defnyddio mewn tasg a gyflawnir yn yr iaith arall.

Er enghraifft, annog disgyblion i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth amrywiol mewn un iaith (fel llyfrau gwybodaeth, testun fidio, teledestun, CD-Rom) ac yna cymhathu'r wybodaeth yn yr iaith arall ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Defnyddio medrusrwydd mewn dwy iaith i wella dealltwriaeth
Er enghraifft, tynnu ar wybodaeth disgyblion o'r ddwy iaith ar gyfer gwella eu dealltwriaeth o eirfa, termau a chystrawennau, neu ddyfnhau eu gwerthfawrogiad o destunau a safbwyntiau diwylliannol gwahanol a'u gallu i wybod y gwahaniaeth rhwng cyfieithu llythrennol ac addasu.

- **pa mor drylwyr yw'r asesu a sut y'i defnyddir i gynllunio a gwella dysgu**

⇒ **A yw athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau ar gynnydd y disgyblion mewn siarad, darllen ac ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau?**

Dylech farnu a yw athrawon yn casglu ac yn gwneud defnydd da o dystiolaeth am gynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg o amrediad o sefyllfaoedd ar draws y cwricwlwm.

⇒ **A yw athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn fanwl, gan roi sylw i gynnwys a chywirdeb mynegiant a nodi'n glir yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliannau?**

Y mae cyfrifoldeb ar bob athro, pa bynnag bwnc y mae'n ei addysgu, i asesu nid yn unig gynnwys gwaith ysgrifenedig disgyblion a'u dealltwriaeth, ond hefyd ansawdd y mynegiant. Dylai hyn gynnwys, yn enwedig, defnyddio terminoleg bynciol addas a phatrymau brawddegol allweddol yn gywir. Dylech farnu i ba raddau y mae pob athro hefyd yn cywiro a mireinio mynegiant llafar y disgyblion.

Cwestiwn allweddol 3: pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

- **i ba raddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr**

Pwysig - Cyn mynd ati i arfarnu'r modd y mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer datblygu dwyieithrwydd ar lawr dosbarth, mae'n hanfodol bwysig eich bod yn gyfarwydd â pholisi iaith yr ysgol a'r nodau neu dargedau sy'n berthnasol i'r ysgol ym mholisi iaith yr AALl ac yn y Cynllun Addysg Gymraeg. Dylech ofyn i'r ysgol ddarparu'r dogfennau hyn ar eich cyfer.

⇒ **A yw trefniadaeth y cwricwlwm yn addas?**

Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r ddarpariaeth wedi ei seilio ar gyfres o brofiadau dyddiol wedi eu cynllunio fel rhan o raglen o weithgareddau ehangach ar gyfer disgyblion. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 dylech edrych yn ofalus ar y dyraniad amser a threfniadaeth y cwricwlwm gan farnu ansawdd y profiadau a gynigir i ddisgyblion ac os ydynt yn rhan o raglen gydlynus heriol. Yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg, dylech ystyried hefyd

a oes cyfleoedd priodol yng nghyfnod allweddol 2 i'r disgyblion ddatblygu eu medrau mewn ystod gynyddol o gyd-destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dylech farnu pa mor effeithiol yw trefniant cwricwlwm yr ysgol ar gyfer codi safonau dwyieithrwydd y disgyblion. Mewn nifer o ysgolion yr athrawon bro sy'n gyfrifol am addysgu'r Gymraeg ail iaith. Mae angen ichi ystyried pa mor effeithiol yw'r mewnbwn hwn, ac i ba raddau y mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawes fro a'r athrawon dosbarth. Dylai hyn gynnwys cynllunio gwaith dilynol effeithiol ar gyfer y cyfnodau rhwng ymweliadau'r athro/athrawes fro.

⇒ **A yw'r modd y cyflwynir y cwricwlwm yn effeithiol o ran datblygu dwyieithrwydd disgyblion?**

Lle'r addysgir y Gymraeg yn iaith gyntaf, mae'n bwysig cydnabod bod sawl ffordd o ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Yn y blynyddoedd cynnar a CA1 bydd y disgyblion mewn ysgolion sy'n dilyn rhaglen y Gymraeg yn iaith gyntaf yn cael eu trochi'n llwyr yn y Gymraeg. Mewn rhai o'r ysgolion yma bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno'n raddol yng CA1 ond mewn eraill ni fydd yn cael ei chyflwyno tan ddechrau CA2 er mwyn gosod seiliau cadarn yn y Gymraeg yn y lle cyntaf.

Yn CA2, mae'r dulliau o ddatblygu dwyieithrwydd y disgyblion lle'r addysgir y Gymraeg yn iaith gyntaf hefyd yn amrywio. Gall hyn gynnwys:

- addysgu rhai unedau neu fodiwlau drwy gyfrwng un iaith ac eraill drwy gyfrwng yr iaith arall;
- addysgu yn bennaf drwy gyfrwng un iaith a chyflwyno termau allweddol y pwnc yn yr iaith arall;
- addysgu'n bennaf drwy gyfrwng un iaith a neilltuo amser penodol ar gyfer adolygu/trafod cysyniadau yn yr iaith arall; ac
- addysgu'n ddwyieithog: gallai hyn olygu cyflwyno yn y ddwy iaith; cyflwyno'n bennaf mewn un iaith a chyflwyno termau neu brif bwyntiau yn yr iaith arall; cyflwyno mewn un iaith gan gylchynu a thrafod gydag is-grwpiau yn yr iaith arall.

Nid yw'r modelau hyn i gyd o anghenraid yn gyfystyr ag arfer dda. Rhaid i chi fod yn ofalus nad ydych yn ffafrio un o'r dulliau hyn heb, yn y lle cyntaf, ddeall y rheswm dros y dewis. Mae hyn yn rhywbeth i'w drafod gyda'r athro dosbarth a'r cydlynydd y pwnc. Dylai dewis y dull mwyaf priodol ddibynnu ar nifer o ffactorau, fel a nodwyd yn yr adran ar gwestiwn allweddol 1. Yr hyn sy'n allweddol bwysig yw bod eich arfarniad yn ystyried effaith y dulliau a fabwysiadwyd gan yr ysgol ar ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r gofynion mewn ysgol sy'n gwasanaethu ardal lle mae'r Gymraeg yn gadarn a mwyafrif helaeth y disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn hollol wahanol i sefyllfa lle mae dosbarth yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Mae'n bwysig eich bod yn barnu a yw cynllunio cwricwlaidd yn hyrwyddo datblygiad dwyieithrwydd disgyblion mewn ystod gynyddol o gyd-destunau, a galluogi disgyblion i ddod yn gynyddol hyderus a hyfedr yn y ddwy iaith.

Ffactor allweddol i'w hystyried yma yw gallu staff mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddarparu profiadau dysgu yn Gymraeg sy'n ddigon heriol.

Bydd angen i chi ddod i farn a yw'r ysgol wedi cynllunio'n bwrpasol i sicrhau bod yr ystod lawn o fedrau allweddol cyfathrebu yn y ddwy iaith yn derbyn sylw digonol. Hynny yw, a yw disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu a defnyddio eu medrau siarad, gwrando ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm? Dylai disgyblion fod yn gwneud cynnydd parhaus at fod yn hyderus yn eu defnydd o'r medrau hyn yn y ddwy iaith.

⇒ **Lle bo'n berthnasol, a oes dilyniant a pharhad ym mhrofiadau disgyblion o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg?**

Yn y sector addysg Gymraeg, yn cynnwys ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion cymunedol, dylech farnu p'un a oes dilyniant a pharhad rhwng cyfnodau allweddol yn y cyfleoedd i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae rhai pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA1 ond drwy gyfrwng y Saesneg yn CA2. Mae hyn yn amharu ar ddatblygiad dwyieithrwydd y disgyblion ac ar y dilyniant yn eu dysgu. Mewn rhai achosion, mae'r addysgu yn y pynciau hyn yn Gymraeg ond y disgyblion yn sefyll y profion statudol drwy gyfrwng y Saesneg. Dylech archwilio'r rhesymau am hyn, gan ystyried pa effaith y mae'n ei gael ar gyflawniadau disgyblion yn y profion. Mae diffyg dilyniant yn nysgu'r disgyblion hefyd lle maent yn newid o ddilyn y rhaglen Gymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 1 i Gymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2.

⇒ **A yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd digonol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg ar wahân i'w gwersi Cymraeg?**

Mae cyfleoedd rheolaidd i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg a'i defnyddio y tu hwnt i ddosbarthiadau Cymraeg yn cael dylanwad mawr ar hyfedredd a hyder disgyblion yn y Gymraeg. I lawer o ddisgyblion, hyd yn oed yn y sector addysg Gymraeg, prin yw eu cyswllt â' r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol. Mae angen i chi ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn cyflenwi'r angen hwn yn rheolaidd mewn ffyrdd megis y canlynol:

- ethos yr ysgol – arwyddion, arddangosfeydd, defnydd o'r Gymraeg gan staff o gwmpas yr ysgol;
- defnydd o'r Gymraeg mewn achlysuron fel gwasanaethau;
- ymweliadau a chyrsiau, gan gynnwys profiadau preswyl
- clybiau, gweithgareddau amrywiol; a
- chystadlaethau, cwisiau, yn cynnwys yr Urdd

Lle mae tystiolaeth ar gael, bydd angen i chi ystyried faint o'r disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau fel y rhain ac a ydynt yn cynrychioli'r ystod lawn o ran oed, gallu a chefndir ieithyddol.

⇒ **A oes partneriaethau effeithiol â rhieni ac ysgolion eraill?**

Dylech archwilio partneriaethau rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylai hyn gynnwys yr hyn y mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo dilyniant a pharhad rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.

Byddwch eisiau gwybod a yw'r ysgol, yn enwedig yn y sector cyfrwng Saesneg, yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, yn lleol neu mewn rhannau eraill o Gymru drwy ymweliadau neu gysylltiadau electronig fel e-bost.

Mae dealltwriaeth rhieni o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd a'u cefnogaeth yn allweddol o ran hyrwyddo agweddau cadarnhaol ymysg disgyblion. Bydd y cyfarfod cyn-arolygiad â'r rhieni yn rhoi cyfle ichi archwilio lefelau dealltwriaeth rhieni o bolisi iaith yr ysgol a sut y mae'r ysgol yn hyrwyddo dwyieithrwydd.

Cwestiwn allweddol 4: pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r cymorth i ddysgwyr?

❑ ansawdd y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr

⇒ **A yw'r ysgol yn darparu gwybodaeth fanwl ar sut y datblygir dwyieithrwydd y disgyblion?**

Dylai dogfennau fel y llawlyfr ysgol roi darlun clir i ddarpar-rieni a'u plant mewn iaith sy'n hawdd ei deall o'r cyfleoedd i astudio eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob un o'r cyfnodau allweddol gan gynnwys y blynyddoedd cynnar. Dylid cynnwys hefyd amlinelliad o sut y mae'r ysgol yn hyrwyddo dwyieithrwydd disgyblion ym mha bynnag fath o ysgol y maent, ac egluro manteision dwyieithrwydd i ddisgyblion a'r rhan gall rhieni ei chwarae o ran meithrin agweddau iach.

⇒ **A yw disgyblion yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd am y cyfleoedd i barhau ag addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog?**

Dylai disgyblion a'u rhieni gael gwybod beth yw'r cyfleoedd i barhau ag addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog yn y sector uwchradd.

⇒ **A oes darpariaeth addas ar gyfer cynnal disgyblion sydd heb fod wedi derbyn addysg gyfrwng neu ddwyieithog mewn cyfnodau blaenorol o'u haddysg?**

Yn yr ysgolion lle'r addysgir yn helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog, dylech holi a oes unrhyw hwyrddyfodiaid nad ydynt wedi derbyn addysg gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn flaenorol. Dylech farnu a yw'r ysgol yn darparu cymorth ychwanegol effeithiol i'r disgyblion hyn i'w galluogi i integreiddio'n llwyddiannus i addysg gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Weithiau, mae disgyblion yn symud i ysgolion yng Nghymru heb brofiad blaenorol o ddysgu Cymraeg. Mae angen i chi ystyried effeithiolrwydd unrhyw drefniadau penodol ar gyfer y disgyblion hyn. Os yw niferoedd yn caniatâu, gallai hynny fod ar ffurf grŵp addysgu ar wahân neu drwy fynychu'r Ganolfan Iaith sirol, os oes darpariaeth ar gael. Fel arall, efallai y darperir ar gyfer y disgyblion hyn drwy sylw penodol i'w hanghenion oddi mewn i ddosbarthiadau'r prif lif. Ni ddylai darpariaeth o'r fath ddibynnu'n ormodol ar lenwi taflenni gwaith a chyflawni tasgau goddefol isel eu her. Dylai'r disgyblion hyn gael cyfleoedd da i ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg.

❑ ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

⇒ **Lle bo'n briodol, a ddarperir gwasanaethau cynnal cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig?**

Dylai hyn gynnwys athrawon arbenigol a seicolegwyr addysg, ynghyd â darpariaeth ar gyfer anghenion penodol dwys megis therapyddion lleferydd a chlyw.

⇒ **A yw disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn derbyn cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo twf eu dwyieithrwydd?**

Lle bo'n briodol, dylai disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gael manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, sy'n cynnwys pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol a darpariaeth gwricwlaidd arall.

❑ ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal

⇒ **Yn y sector addysg Saesneg, a yw'r ysgol yn darparu'n addas ar gyfer disgyblion sydd o gefndir Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i safon iaith gyntaf?**

Mewn ysgolion sy'n addysgu yn gyfan gwbl neu yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, dylech holi a oes disgyblion sydd naill ai wedi trosglwyddo o'r sector

addysg Gymraeg, yn dod o gefndir Cymraeg, neu sy'n medru'r Gymraeg i safon iaith gyntaf. Bydd angen i chi ddod i farn a yw'r gwaith sy'n cael ei roi i'r disgyblion hyn yn eu herio'n ddigonol ac yn sicrhau dilyniant yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

- **pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel**

⇒ **A oes gan yr ysgol bolisi clir a chynhwysfawr ar ddwyieithrwydd sy'n cael ei weithredu'n gyson ar draws yr ysgol?**

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried polisi iaith yr AALl, ynghyd ag amcanion a thargedauCynllun Addysg Gymraeg yr AALl. Dylai polisi iaith yr ysgol ar y materion hyn adlewyrchu'r nodau yn y dogfennau allweddol hynny.

Dylai polisi iaith yr ysgol roi arweiniad manwl i athrawon ac eraill ar sut y mae'r ysgol yn datblygu medrusrwydd disgyblion yn siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylai amlinellu hyd a lled y ddarpariaeth gyfrwng neu ddwyieithog ym mhob cyfnod allweddol.

Mae angen i chi farnu a oes dealltwriaeth glir gan athrawon o oblygiadau polisi iaith yr ysgol. Dylai athrawon a llywodraethwyr fod â pherchnogaeth ar y polisi iaith ac yn ymroi i'w weithredu'n llwyddiannus. Dylai polisïau iaith a chynlluniau gwaith pynciol adlewyrchu nodau polisi iaith yr ysgol a nodi'n glir sut y'u gweithredir yn y pwnc.

⇒ **A oes gan reolwyr ddealltwriaeth glir o nodau'r Cynulliad mewn perthynas â dwyieithrwydd?**

Dylai pob ysgol fod yn ymwybodol o nodau a disgwyliadau'r Cynulliad mewn perthynas dwyieithrwydd, fel y'u nodir mewn dogfennau fel 'Gwellcymru.com', 'Y Wlad sy'n dysgu' ac 'Ein Hiaith: ei dyfodol'. Esbonnir y rhain yn y cyflwyniad i'r canllawiau hyn.

Dylai fod gan yr ysgol dargedau clir mewn perthynas â'r Gymraeg a dwyieithrwydd, sy'n ystyried polisi a nodau'r Cynulliad mewn perthynas â'r canlynol:

- codi safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg a medrau dwyieithog;
- lleihau canran y disgyblion sydd yn trosglwyddo o Gymraeg iaith gyntaf i ail iaith rhwng CA1 a CA2, ac yn newid o addysg gyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog i gyfrwng Saesneg; ac

- ehangu ar ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.

Dylai'r targedau hyn fod â chyswllt agos ag unrhyw faterion a nodir yn adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol.

❑ pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflanwi eu cyfrifoldebau

Mae'r cyfarfod cyn-arolygiad â'r corff llywodraethol yn rhoi cyfle i chi archwilio a yw llywodraethwyr yn llwyr ymwybodol o oblygiadau polisi iaith yr AALl a'i Gynllun Addysg Gymraeg. Dylai llywodraethwyr hefyd ddangos dealltwriaeth ac ymrwymiad mewn perthynas ag amcanion y Cynulliad, fel y'u disgrifir yn yr adran flaenorol uchod.

Cwestiwn allweddol 6: pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

❑ pa mor effeithiol y caiff perfformiad yr ysgol ei fonitro a'i arfarnu

⇒ **A oes gan yr ysgol weithdrefnau rheoli ansawdd mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg neu ddwyieithog fel ei gilydd?**

Yng nghyd-destun dwyieithrwydd dylid barnu cwmpas ac effeithiolrwydd gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer arfarnu'r safonau a gyflawnir ac ansawdd ei darpariaeth;

Lle nad yw staff â chyfrifoldebau rheoli yn medru'r Gymraeg yn ddigon da, dylech archwilio'r modd y mae rheolwyr yn arfarnu ansawdd mewn perthynas â'r Gymraeg yn iaith gyntaf neu ail iaith, a lle bo'n berthnasol, darpariaeth gyfrwng Cymraeg.

Dylai adroddiad hunanarfarnu'r ysgol nodi cryfderau a gwendidau o ran darpariaeth a safonau dwyieithrwydd.

❑ effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer gwella

⇒ **A yw'r ysgol yn cynllunio ar gyfer gwelliant mewn perthynas â'r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn ffordd effeithiol?**

Dylech arfarnu:

- ystod a natur y bwriadau ar gyfer gwelliant a nodir gan yr ysgol yn dilyn ei hunanarfarniad;

- effeithiolrwydd proses cynllunio ar gyfer gwelliant a phennu targedau meintiol ac ansoddol; ac

- effeithiolrwydd gweithrediad cynlluniau gwella a'r gweithdrefnau monitro ac arfarnu cynnydd.

Bydd angen i chi ddod i farn a yw cynlluniau datblygu yn dyrannu adnoddau digonol ar gyfer gwireddu'r bwriadau ac yn nodi strategaethau clir. Er enghraifft, gallai strategaeth ar gyfer delio â phrinder staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gynnwys :

- rhannu staff arbenigol ac ysgolion cyfagos;

- darparu hyfforddiant i alluogi staff sy'n siarad Cymraeg ond yn addysgu fel arfer drwy gyfrwng y Saesneg i fod yn gymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; neu

- wneud defnydd o ddarpariaeth dysgu o bell.

Cwestiwn allweddol 7: pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau?

❑ digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd o staff, adnoddau dysgu ac adeiladu

⇒ **A oes gan yr ysgol ddigon o staff sy'n medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?**

Dylai fod gan yr ysgol ddigon o staff i sicrhau dilyniant a pharhad mewn addysg gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar draws y cwricwlwm ac o'r blynyddoedd cynnar drwodd i gyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

Dylech hefyd ystyried i ba raddau y mae cymorth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, lle y bo'n briodol.

Mewn rhai ardaloedd, mae cyfrannedd uchel o ddosbarthiadau ail iaith yn cael eu haddysgu gan athrawon anarbenigol. Dylech nodi a yw hyn yn cael effaith andwyol ar safonau cyflawniad. Dylech hefyd ystyried i ba raddau y mae cymorth ac arweiniad o ansawdd da yn cael eu darparu ar gyfer staff anarbenigol.

⇒ **A oes cyflenwad digonol o adnoddau cyfrwng Gymraeg a dwyieithog amrywiol ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog**

Ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, dylech farnu a oes digon o lyfrau darllen Cymraeg i alluogi disgyblion i gyflawni gofynion darllen y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Dylech ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn manteisio ar ymweliadau a chyrsiau, yn cynnwys cyrsiau preswyl, i hyrwyddo cynnydd disgyblion yn y Gymraeg.

- **pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian**

Dylai rheolwyr fod yn ymwybodol o allu a chymwyseddau aelodau o staff mewn perthynas ag addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddyrannu a rheoli staff. Dylid costio unrhyw fwriadau i fynd i'r afael â diffygion neu rwystrau a'u cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol.

ATODIAD 1: CANLLAWIAU CRYNO AR GYFER AROLYGU DWYIEITHRWYDD

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Rhestr wirio: nodweddion cyffredin lle mae disgyblion yn cyflawni safonau da:

- Mae'r disgyblion, yn gyffredinol, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â chyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu.
- Gwna'r disgyblion gynnydd cyson a chlir mewn perthynas â'r ddwy iaith ar sail eu cyflawniadau yng nghyfnod blaenorol eu haddysg.
- Mae safonau cyflawniad pynciol o leiaf yn foddhaol yn y Gymraeg/Cymraeg ail iaith ac yn y Saesneg[4].
- Mae safonau o leiaf yn foddhaol yn y medrau allweddol cyfathrebu/llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn y Gymraeg[5] a'r Saesneg.
- Yn y sector addysg Gymraeg, gwna disgyblion CA2 gynnydd da yn eu medrau llythrennedd deuol.
- Mae disgyblion yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg, ar y lefel briodol, wrth siarad â'i gilydd ac â'u hathrawon y tu hwnt i'w gwersi.
- Mae agweddau disgyblion at y Gymraeg a dwyieithrwydd yn gadarnhaol. Mae disgyblion yn ymwybodol o fanteision bod yn ddwyieithog.

.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

[4] Yn y sector addysg Gymraeg, nid yw'r Saesneg fel arfer yn cael ei haddysgu'n ffurfiol tan gyfnod allweddol 2.
[5] Yn y sector Saesneg, nid y'w debygol y gellir graddio safonau medrau allweddol Cymraeg gan mai Saesneg yw cyfrwng yr addysgu ar draws y cwricwlwm.

Cwestiwn allweddol 2: pa mor effeithiol yw'r addysgu, hyfforddi a'r asesu?

Rhestr wirio : nodweddion cyffredin lle mae ansawdd yr addysg, hyfforddi ac asesu yn dda:

- Mae'r dulliau a ddefnyddir ar lawr dosbarth i ddatblygu hyfedredd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn addas, o ystyried natur ieithyddol yr ysgol a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu.

- Mae athrawon yn darparu amrediad addas o brofiadau dysgu ar gyfer siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, lle bo'n briodol.

- Lle bo'n briodol, mae athrawon yn cynllunio ystod o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd deuol disgyblion.

- Mae'r athrawon yn darparu model iaith o ansawdd dda, drwy siarad yn glir a chywir yn y cywair priodol a defnyddio terminoleg briodol.

- Mae athrawon yn cyflwyno eitemau iaith newydd yn ofalus, yn cynnwys geirfa, patrymau brawddegol a gramadeg. Maent yn darparu cyfleoedd da ar gyfer atgyfnerthu dwys, ymarfer a defnyddio iaith newydd mewn sefyllfaoedd llai strwythuredig.

- Mae athrawon yn casglu tystiolaeth o gynnydd disgyblion mewn amrediad o fedrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, yn rheolaidd yn y ddwy iaith o ystod o ffynonellau ar draws y cwricwlwm.

- Gwneir defnydd effeithiol o asesiadau i gynllunio'r cam nesaf yn natblygiad ieithyddol y disgyblion.

- Mae'r marcio yn talu sylw i ansawdd mynegiant yn ogystal â dealltwriaeth disgyblion o'r gwaith.

Cwestiwn allweddol 3: pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Rhestr wirio: nodweddion cyffredin lle mae ansawdd y profiadau dysgu yn dda:

- Mae'r dyraniad amser ar gyfer y Gymraeg yn dda.

- Lle'r addysgir y Gymraeg yn ail iaith, mae trefniadaeth y cwricwlwm yn briodol. Lle bo'n berthnasol, mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon dosbarth a'r athrawes fro.

- Yn y sector addysg Gymraeg, y mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu ystod cynyddol o fedrau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn CA2.

- Mae dilyniant da o ran profiadau dysgu disgyblion yn y Gymraeg rhwng ac yn ystod y blynyddoedd cynnar, cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

- Mae dilyniant a pharhad yn y cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar draws y blynyddoedd cynnar, cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

- Mae'r Gymraeg yn cael lle amlwg o ran ethos. Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddefnyddio'r Gymraeg a'u medrau dwyieithog y tu hwnt i'w gwersi Cymraeg.

Cwestiwn allweddol 4: pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r cymorth i ddysgwyr?

Rhestr wirio: nodweddion cyffredin lle mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad i ddysgwyr yn dda:

- Mae'r llawlyfr ysgol yn rhoi darlun clir i rieni o'r cyfleoedd i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog ym mhob cyfnod allweddol.

- Mae gan rieni ddealltwriaeth glir o bolisi iaith yr ysgol a'r modd yr hyrwyddir dwyieithrwydd, ac maent yn gefnogol iddynt. Maent yn ymwybodol o fanteision bod eu plant yn datblygu eu gallu yn y ddwy iaith.

- Mae disgyblion a'u rhieni yn gwybod am y cyfleoedd sydd iddynt barhau i dderbyn addysg gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog yn y sector uwchradd.

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ystyried cefndir ieithyddol y disgyblion. Mae'r disgyblion hyn, lle bo'n briodol, yn derbyn ystod lawn o brofiadau cwricwlaidd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

- Mae ystod da o wasanaethau cynnal yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog lle bo'n briodol.

- Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i addysg gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu heb brofiad blaenorol o ddysgu Cymraeg neu ddwyieithog. Yn y sector Saesneg, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion o gefndir Cymraeg, neu sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl, yn parhau i wneud cynnydd ar y lefel briodol.

- Yn y sector addysg Saesneg, mae'r ysgol yn darparu cynhaliaeth sy'n galluogi disgyblion o gefndir Cymraeg, neu sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, i gyflawni eu potensial yn y Gymraeg.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Rhestr wirio: nodweddion cyffredin lle mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol yn dda hyfforddi ac asesu yn dda:

- Mae polisi iaith cynhwysfawr a heriol gan yr ysgol, a'r disgwyliadau yn hysbys i'r holl staff. Mae'r polisi yn dangos yn glir beth yw hyd a lled darpariaeth gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yr ysgol a sut y mae'r ysgol yn hyrwyddo dwyieithrwydd pob carfan o ddisgyblion. Mae'r polisi yn talu sylw priodol i bolisi iaith a Chynllun Addysg Gymraeg yr AALl.

- Mae'r ysgol yn ymwybodol o fwriadau polisi'r Cynulliad mewn perthynas â dwyieithrwydd. Pennwyd targedau clir ar gyfer datblygu. Mae'r targedau yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

- Mae gan y corff llywodraethol berchnogaeth ar bolisi iaith yr ysgol ac mae'n monitro ei weithrediad. Mae'r corff yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r Cynulliad, polisi iaith yr AALl a'i Gynllun Addysg Gymraeg.

Cwestiwn allweddol 6: pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Rhestr wirio: nodweddion cyffredin lle mae arfarnu a gwella ansawdd a safonau yn dda:

- Mae gan reolwyr uwch a'r cydgysylltwyr pwnc perthnasol wybodaeth fanwl am ansawdd y ddarpariaeth a safonau dwyieithrwydd y disgyblion.

- Mae targedau clir, yn cynnwys targedau meintiol lle bo'n briodol, ar gyfer gwella a sicrhau datblygiadau pellach mewn materion yn ymwneud â'r Gymraeg, y Saesneg a dwyieithrwydd.

- Mae cynlluniau datblygu yn nodi strategaethau clir a manwl, ac yn dyrannu adnoddau digonol.

Cwestiwn allweddol 7: pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau?

Rhestr wirio: nodweddion cyffredin lle mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau yn dda:

- Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys sy'n medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog, a gwneir defnydd priodol ohonynt.

- Mae'r ysgol yn darparu gwasanaeth o ansawdd dda drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n briodol, ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

- Mae cyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer hyrwyddo datblygiad dwyieithrwydd y disgyblion.

- Mae ystyriaeth ofalus wedi ei rhoi i gostau'r bwriadau yn y cynlluniau datblygu ac mae'r symiau a bennwyd yn rhesymol.

ATODIAD 2: Graddio safonau dwyieithrwydd mewn sefyllfaeodd enghreifftiol

Noder: *ffurflenni a luniwyd i bwrpas hyfforddi yw'r rhain, i hwyluso llunio barnau crynodol ar safonau dwyieithrwydd.*

Daw'r ddau ddatganiad cyntaf yn y tablau o'r proffil ysgol. Gofyn y maent am raddio medrau allweddol, sef y defnydd o'r medrau iaith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r blychau du yn nodi naill ai lle nad yw'n debygol y bydd modd i chi nodi arfarniad oherwydd natur ieithyddol yr ysgol, neu gan nad oes angen arfarniad ysgol-gyfan.

Ochr yn ochr â'r agweddau y cyfeirir atynt yn y tablau, byddai angen i chi ystyried hefyd unrhyw ddefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg gan ddisgyblion y tu hwn i'w gwersi, er enghraifft mewn gwasanaethau, gweithgareddau allgyrsiol, wrth siarad â'i gilydd ac â'u hathrawon o gwmpas yr ysgol neu wrth chwarae.

Ysgol A: Sector Gymraeg

Safonau cyflawniad:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	CA2	**Ysgol gyfan**
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Cymraeg	2	2	2	3	2
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Saesneg				4	4
Safonau Cymraeg (pwnc)	2	2	2	2	
Safonau Saesneg (pwnc)				3	
Safonau dwyieithrwydd				**3**	**3**

Sylwebaeth:

Ni ellir rhoi graddau crynodol i safonau dwyieithrwydd yn y meithrin, derbyn nac yng nghyfnod allweddol 1 gan nad yw'r Saesneg yn cael ei haddysgu'n ffufriol tan ddechrau cyfnod allweddol 2. Mae diffygion mewn meysydd pwysig mewn perthynas â medrau allweddol y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn Saesneg yn CA2. Er hynny, mae'r safonau yn y Saesneg fel pwnc yn radd 3. Felly, er bod diffygion, mae nodweddion da yn eu gorbwyso. Gradd 3 yw'r radd ysgol-gyfan briodol ar gyfer safonau dwyieithrwydd felly.

Ysgol B: Sector Gymraeg

Safonau cyflawniad:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	CA2	**Ysgol gyfan**
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Cymraeg	2	2	1	1	1
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Saesneg				4	4
Safonau Cymraeg (pwnc)	2	2	2	1	
Safonau Saesneg (pwnc)				4	
Safonau dwyieithrwydd				**4**	**4**

Sylwebaeth:

Ni ellir rhoi graddau crynodol i safonau dwyieithrwydd yn y meithrin, derbyn nac yng nghyfnod allweddol 1 gan nad yw'r Saesneg yn cael ei haddysgu'n ffurfiol tan ddechrau cyfnod allweddol 2. Mae safonau'n radd 1 yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 ac mae medrau allweddol disgyblion ar draws y cwricwlwm yn radd 1 yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Eto'i gyd, mae safonau Saesneg fel pwnc yn radd 4; felly hefyd fedrau allweddol Saesneg disgyblion ar draws y cwricwlwm. Felly, o safbwynt safonau dwyieithrwydd, mae diffygion mewn meysydd pwysig. Er gwaethaf y nodweddion rhagorol, gradd 4 yw'r radd ysgol-gyfan briodol ar gyfer safonau dwyieithrwydd.

Ysgol C: Sector Saesneg

Safonau cyflawniad:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	CA2	**Ysgol gyfan**
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Cymraeg					
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Saesneg	2	2	2	2	2
Safonau Cymraeg ail iaith (pwnc)	3	3	3	4	
Safonau Saesneg (pwnc)	2	2	1	1	
Safonau dwyieithrwydd	**2**	**2**	**2**	**4**	**3**

Sylwebaeth:

Ni ellir rhoi graddau i safonau yn y medrau allweddol Cymraeg yn yr ysgol hon, gan mai ysgol sy'n addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yw. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau dwyieithrwydd yn radd 4 gan fod diffygion mewn meysydd pwysig, sef safonau Cymraeg ail iaith. Mae'r nodweddion da yng ngweddill yr ysgol yn gorbwyso'r diffygion yng nghyfnod allweddol 2.
Felly, y radd ysgol-gyfan briodol ar gyfer safonau dwyieithrwydd yn yr ysgol hon yw gradd 3.

Ysgol Ch: Sector Saesneg

Safonau cyflawniad:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	CA2	**Ysgol gyfan**
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Cymraeg					
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Saesneg	3	3	3	3	3
Safonau Cymraeg ail iaith (pwnc)	2	2	1	2	
Safonau Saesneg (pwnc)	3	3	3	3	
Safonau dwyieithrwydd	**3**	**3**	**3**	**3**	**3**

Sylwebaeth:

Ni ellir rhoi graddau i safonau yn y medrau allweddol Cymraeg yn yr ysgol hon, gan mai ysgol sy'n addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yw. Er gwaethaf y safonau uchel mewn Cymraeg ail iaith ar draws yr ysgol, mae diffygion yn safonau Saesneg fel pwnc ac ym medrau allweddol Saesneg y disgyblion. Felly, ni all safonau dwyieithrwydd fod yn dda. Y radd ysgol-gyfan briodol ar gyfer dwyieithrwydd yw gradd 3.

Ysgol D: Sector Cymraeg/Saesneg (dwy ffrwd)

Ffrwd Gymraeg

Safonau cyflawniad:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	CA2	**Ysgol gyfan**
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Cymraeg	2	2	1	1	1
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Saesneg				3	3
Safonau Cymraeg (pwnc)	2	2	2	1	
Safonau Saesneg (pwnc)				3	
Safonau dwyieithrwydd				**2**	**2**

Ffrwd Saesneg

Safonau cyflawniad:	**Meithrin**	**Derbyn**	**CA1**	CA2	**Ysgol gyfan**
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Cymraeg					
Medrau cyfathrebu/llythrennedd: Saesneg	2	2	2	2	2
Safonau Cymraeg ail iaith (pwnc)	3	3	3	4	
Safonau Saesneg (pwnc)	2	2	1	1	
Safonau dwyieithrwydd	**2**	**2**	**2**	**4**	**3**

Ysgol-gyfan

Safonau dwyieithrwydd	**2**	**2**	**2**	**3**	**3**

Sylwebaeth:

Yn y ffrwd Gymraeg, ni ellir rhoi graddau crynodol i safonau dwyieithrwydd yn y meithrin, derbyn nac yng nghyfnod allweddol 1 gan nad yw'r Saesneg yn cael ei haddysgu'n ffurfiol tan ddechrau cyfnod allweddol 2. Yn y ffrwd Saesneg, ni ellir rhoi graddau i safonau yn y medrau allweddol Cymraeg yn yr ysgol hon, gan mai drwy gyfrwng y Saesneg y mae'r addysgu. Mae safonau dwyieithrwydd yn radd 2 yn y ffrwd Gymraeg ac yn radd 3 yn y ffrwd Saesneg. O safbwynt yr ysgol gyfan, nid yw safonau dwyieithrwydd yn radd 2 gan fod diffygion mewn meysydd pwysig, sef yn safonau Cymraeg ail iaith yn y ffrwd Saesneg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Felly, y radd ysgol-gyfan briodol ar gyfer safonau dwyieithrwydd yw gradd 3.